



Cwrs	Hyd	Lleoliad	Cost
Tystysgrif NVQ Highfield Lefel 2 mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid	6-12 mis	Opsiynau seiliedig ar waith ac ar-lein ar gael	Pris ar gais*
<p>Anelir y cymhwyster hwn at ddysgwyr sy'n ymdrin, neu sy'n bwriadu ymdrin â chwsmeriaid yn ddyddiol fel rhan o'u swydd ac mae'n addas ar gyfer amrywiaeth o amgylcheddau gwaith. Mae'r pynciau'n cynnwys adnabod cwsmeriaid a'u nodweddion a'u disgwyliadau, sut i gyfathrebu gan ddefnyddio iaith gwasanaeth cwsmer, sut i ddilyn y rheolau i gyflwyno gwasanaeth i gwsmeriaid, sut i gynnal agwedd gadarnhaol sy'n gyfeillgar i gwsmeriaid, sut i gyfathrebu'n effeithiol gyda chwsmeriaid a sut i roi argraff gadarnhaol ohonyn nhw eu hunain a'u sefydliad i gwsmeriaid.</p>			
Dyfarniad Highfield Lefel 2 mewn Gwasanaeth Cwsmeriaid	1 diwrnod	Opsiynau seiliedig ar waith ac ar-lein ar gael	Pris ar gais*
<p>Anelir y cymhwyster hwn at ddysgwyr sy'n gweithio, neu sy'n paratoi i weithio mewn rôl gwasanaeth cwsmeriaid neu ble mae defnyddio'r ffôn yn rhan o'r rôl. Mae'r pynciau'n cynnwys deall egwyddorion gwasanaeth cwsmeriaid, sut mae anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid yn cael eu ffurfio, gwybod pa sgiliau rhyngbersonol ac ymddygiad priodol sydd eu hangen yn yr amgylchedd gwasanaeth cwsmeriaid a deall egwyddorion ymateb i broblemau neu gwynion cwsmeriaid.</p>			
Tystysgrif Lefel 2 mewn Trin Gwallt	1 Flwyddyn	Y Graig	£212
<p>Mae hwn yn gymhwyster perffaith i'r rheini sy'n newydd i drin gwallt neu sy'n dymuno newid gyrfa a mynd i drin gwallt. Yn ystod y cwrs cewch eich cyflwyno i amrywiol dechnegau ac arddulliau.</p>			
Diploma Lefel 4 mewn Ymarfer Rheoli a Thechnegau Uwch ym maes Gwallt a Phrydferthwch	1 Flwyddyn	Y Graig	£318
<p>Mae'r rhaglen hon yn addas i chi os ydych chi'n berchen ar / yn rheoli salon ar hyn o bryd neu os ydych chi'n dymuno datblygu sgiliau rheoli/busnes yn y sector gwallt a phrydferthwch. Bydd y cymhwyster lefel 4 hwn yn eich cynorthwyo i ddatblygu eich sgiliau rheoli staff ac adnoddau, hyrwyddo a marchnata'r busnes, deall y diwydiant ac yn ogystal gall gynyddu'r sgiliau sydd gennych mewn technegau gwallt neu brydferthwch uwch.</p>			
Dyfarniad mewn Technoleg Ewinedd	1 Flwyddyn	Y Graig	£212
<p>Mae'r Dyfarniad Lefel 2 mewn Technoleg Ewinedd yn gymhwyster sydd wedi'i gynllunio'n benodol i ddatblygu eich sgiliau ymarferol i ddarparu a chynnal addurniadau ewinedd naill ai gyda gel UV neu systemau ewinedd hylifol neu bowdr. Mae hwn yn gwrs cyflwyniadol i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i weithio fel technegydd ewinedd.</p>			
CYSWLLT ICB – Tystysgrif Lefel 2 mewn Cadw Cyfrifon	2 Mis	Ar-lein	£375
<p>Bydd y cwrs hwn yn cyflwyno'r gwahaniaethau rhwng cofnodi sengl a dwbl, ac yn esbonio sut i'w gymhwyso'n ymarferol yn y mwyafrif llethol o fodolau busnes. Mae'r cwrs dwys hwn yn opsiwn dysgu hanfodol i unrhyw gyflogai sy'n dymuno cyfoethogi ei sail gwybodaeth a'i set sgiliau cyfredol, gan roi hwb hanfodol i'w cyfleoedd gyrfa presennol.</p> <p>Mae gan bob busnes adran cyfrifeg, beth bynnag yw natur y busnes hwnnw. Felly, mae meddu ar ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth sylfaenol o leiaf o ddeddfwriaeth ac ymarfer gorau ym maes cadw cyfrifon yn fanteisiol i unrhyw un sy'n gweithio, neu sy'n dymuno gweithio, mewn amgylchedd busnes neu gorfforaethol.</p>			

*Cyllidir ymgeiswyr cymwys yn rhannol/llawn